

## Dafydd Llwyd, Awdl i Ddewi

*Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964), 47–8.

Dewi, cyn d'eni caed ordeiniaw – man  
Mynyw i'th weddiaw,  
A Phadrig aeth i drigaw  
O Fynyw dros yr hafn draw.

Non a ddôl i'r deml yn ddiwair – feichiog  
O Dwysog dewisair,  
A'r Prelad aeth o'r gadair  
Heb allu pregethu gair.

A Duw a'th ddonies y dydd – y'th aned  
Pan y'th enwyd Dafydd,  
Rhoist i'r dall, rhyw ystyr dydd,  
Ei drem heb ddim godrumydd.

Rhan o dorth gan ar ginio – a lewaist  
Oedd le heb wenwyno,  
A'th gi, cyn it roddi tro,  
A'th frân aeth yn farw yno.

Bleddyd a wnaeth, bennaeth budd,  
Yr ennaint yn ddirinwedd,  
I gael adwyth o'r gwledydd.  
Bendigaist, hyd pan dygiodd,  
Y dwfr praff difai o'r pridd,  
Er iechyd i'r byd o'r bedd.

Er dy fagu'n gu'n oed gŵr – o grefydd  
Cyn gryfed â milwr,  
Ansodd ni mynnodd meinwr,  
Ni bu raid ond bara a dŵr.

Rhai ddaeth i'th bregeth ryw ddydd – i'th ganmol  
Wyth ugeinmil, Ddafydd;  
Daeth hyddod o gysgod gwŷdd  
Draw i'th wrandaw'n yr undydd.

Cof ydyw ynof cyfodi– yn wir,  
Dan oror Cwm Brefi  
Yn dir tew dan dy draed di  
Y ddaear yn Llanddewi.

*[Project Datgeiniaeth begin here]*

Dewi, lle'r wyd aed oll yr iaith,  
Dyfod y mae rhyw adfyd maith,  
Term anghyfaith, trwm, anghyfion. [fersiwn P.Datgeiniaeth: 'trwm yw nghofion']

Dir i Gymru, rhag drwg amraint,  
Draw dy foli, drud ofeiliaint,  
A gwyllo'r naint, a galw ar Non.

Llawer gweddi rhag llwyr godded,  
A blin oeddyn' heb le nodded;  
Dygn y'n rhodded; dwg ni'n rhyddion.

Y sawl sydd, a fu ac a fydd,  
Pawb doed pob dydd i'n rhoi yn rhydd,  
At bab y ffydd aed bawb â'i ffon.

Dyma'r amser y daw'r ymswrn  
Y dewr yn ddig, a dur 'n ei ddwrn,  
Er enwi swrn o'r ynys hon.

Ar bump a deg y mynegir,  
Y wadd a ladd ac a leddir,  
Ef a welir mawr ofalon.

Gwŷr aflonydd, gwaer Fêl Ynys,  
Gwedi'r ymwrdd gwaed ar emys,  
A braw dyrws rhwng brodorion.

A chwys ar gryd a chis ar groen,  
A dwfr ym mhais a Deifr ym mhoen,  
Hoen a goroen ar y gwirion.

A bwrw y dreth a bair y drin,  
I drwsio gwŷr ar draws gwerin,  
I wlad y gwin, flodau gwynion.

Gwelwch roi maes a gweilch o'r môr,  
Lliwio Temys, oerllyd dymor,  
A bwrw blaenor barabl union.

Yn y dwyrain gannaid araul,  
A chleddau hir ymachludd haul,  
Mwya' 'i draul oddyma hyd Rôn.

Dau a welwn o'n dialwyr,  
O ddau efyn yn gofyn gwŷr,  
Daroganwyr â dur gwynion.

Gwŷr a barant gau'r aberoedd,  
Er bitelio i'r bateloedd,  
O du'r moroedd i dir Meirion.

Profi, llyfnu prif holl hafnau,  
Wrth eu dial, byrth y deau,  
O Ddau Gleddau i Gelyddon.

Llygru dinas Lloegr ydanadd,  
A gyrru'r byd ac ocri'r badd,  
A chilio'r wadd, uchel roddion.

Llawer urddol mawr ei ddolur,  
Llawer dug hael, llwyr y daw cur,  
Llawer gwayw dur a llurig don.

Llawer baner i'r llawr beunydd,  
Llawer gawr fawr yn Lloegr a fydd,  
Lle mae brau gwŷdd llyma brig onn.

Dewi'r ydym ar dy radau,  
Bywyd eirwir ar baderau,  
Y gwenerau, ac yn wirion.

A'th weddiaw dithau Ddewi,  
Rwydd-dad, a wnaeth rydd-did inni,  
I'th rieni, athro union.

Ac eleni disgwyl Wynedd  
Y cawn weled can nialedd,  
Yn gelanedd ein gelynion.

Gelynion a drig eleni – ym maes  
Cyn diwedd mis Medi;  
Pob tir maith, pawb o'n iaith ni,  
Pob tuedd, pawb at Dewi.

**Dafydd Llwyd, Ode to St David (second half)**

*Translation: Dafydd Johnston*

David, where you are let all the nation go,  
A long tribulation is coming,  
Foreign term, my memories are heavy.

Wales must praise you yonder  
For fear of bad dishonour, harsh troubles,  
And must watch the streams and call on Non.

There are many prayers for deliverance from utter grief,  
And they were wretched without any sanctuary;  
We were in dire straits; set us free.

Those that are, that were and that will be,  
Let all come every day for us to be set free,  
Let everyone go with their staves to the pope of the faith.

This is the time when the strife will come,  
The brave will be angry with steel in hand,  
Despite naming many of this island.

Five and ten is foretold,  
The mole will kill and be killed,  
Great troubles will be seen.

Turbulent men, woe to the Island of Britain,  
After the conflict blood on steeds,  
And awful fear between natives.

And sweat on shirt and slap on skin,  
And water in garment and English in pain,  
Jubilation and ecstasy for the innocent.

The fighting will cause casting off of tax,  
Equipping men to oppress the commons,  
To the land of the wine, white flowers.

You will see battle engaged and hawks from the sea,  
Colouring of the Thames, cold season,  
And a leader struck down, straight talking.

Radiant sunshine in the east,  
And the long sword of sunset  
Causing greatest destruction from here to Rhone.

We will see two of our avengers,  
From two fetters seeking men,

White vaticinators with steel.

Men will cause estuaries to be closed  
In order to make provision for the armies,  
From the seas to the land of Meirion.

Testing, harrowing all the main havens,  
In avenging them, gates of the south,  
From Milford to Caledonia.

Corrupting the city of England from underneath,  
Compelling all the world, the bath will cool  
And the mole will flee, high gifts.

Many a churchman in great pain,  
Many a noble duke, affliction will be total,  
Many a steel spear and pierced armour.

Many a banner cast down daily,  
There will be many a great shout in England,  
Where trees are flimsy here are the tips of the ash.

David we depend on your blessings,  
Truthful life in prayers,  
On Fridays, and we are innocent.

And we pray to you, David,  
Kind father who gave us freedom,  
And to your parents, honest teacher.

And this year, Gwynedd, expect,  
We shall see a hundred revenges,  
Our enemies will be corpses.

Enemies will remain in the field this year  
Before the end of September;  
Every wide land, all of our nation,  
Every region, all to David.